

DIRPRWY REOLWR GWEITHDY
Theatr Clwyd
Swydd-Ddisgrifiad

Mae Theatr Clwyd wedi bod yn theatr gynhyrchu fwyaf blaenllaw Cymru ers 1976. Ar hyn o bryd mae'r Tîm Gweithredol (Cyfarwyddwr Artistig – Tamara Harvey a Chyfarwyddwr Gweithredol – Liam Evans-Ford) yn llywio'r symudiadau diwylliannol a gweithredol pwysicaf yn ei 42 mlynedd o fodolaeth, cyfnod a fydd yn ailddiffinio a sicrhau dyfodol y ganolfan gelfyddydau unigryw a gwerthfawr hon – y brif theatr gynhyrchu yng Nghymru.

Mae Theatr Clwyd yn cynhyrchu o leiaf wyth sioe y flwyddyn - yn Saesneg yn bennaf, ond yn Gymraeg hefyd ac maent yn cyflwyno peth o'r gwaith hwn ar daith drwy Gymru a gweddill y DU. Mae gan Theatr Clwyd raglen waith hynod lwyddiannus ar gyfer a gyda phobl ifanc sy'n cael ei chreu o fewn a thu allan i'r adeilad, ac sy'n teithio i ysgolion lleol, yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r adeilad hefyd yn croesawu amrywiaeth o ddrama, dawn, cerddoriaeth a chelf deithiol ar gyfer pob oed, rhaglen ffilm gynhwysfawr a rhaglen gymunedol brysur ac mae'r sefydliad ar y blaen o ran gwaith yn ymwneud â'r celfyddydau a lles.

Rydym wedi cymryd camau sylweddol i newid dyluniad ein rhaglen; rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod profiad ymwelwyr yn ganolog i'r broses gwneud penderfyniadau; rydym wedi dechrau datblygu ein digwyddiadau masnachol; rydym wedi cymryd y camau cyntaf i ddatblygu ein perthynas gyda'n cymuned; rydym wedi dechrau datblygu ein cynigion cynorthwyol ac rydym wedi bod yn gweithio'n galed i farchnata ein gwaith a'n hadeilad yn fwy strategol ac yn effeithiol. Rydym hefyd wedi cyflwyno astudiaeth ddichonolrwydd ar gyfer ailddatblygiad cyfalaf mawr ac wedi derbyn arian gan Gyngor Celfyddydau Cymru i symud ymlaen gyda chynlluniau ar gyfer Dylunio a Datblygu.

Theatr Clwyd yw'r unig theatr gynhyrchu ar ôl yn y DU sy'n parhau'n eiddo i awdurdod lleol. Gyda throsiant o £5.3 miliwn yn 2015–16, cefnogir y theatr gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Sir y Fflint a'i gweithgareddau ei hun. Mae tua 2,115 o ddigwyddiadau unigol yn cael eu cynnal, a thua 200,000 o bobl yn eu mynychu, yn ogystal â 50,000 o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn digwyddiadau estyn allan yn flynyddol. Yn ystod 2016/17 roedd 220,000 arall o bobl wedi gweld sioe Theatr Clwyd yn rhywle arall yn y DU.

Crynodeb Swydd

DIRPRWY REOLWR GWEITHDY

Yn gyfrifol am: Goruchwylio Cynorthwywyr y Gweithdy, staff achlysurol a staff llawrydd.

Yn Atebol i: Rheolwr Gweithdy

Buddion yn cynnwys:

Cyflog: £

Gwyliau:

Cyfnod rhybudd:

DIRPRWY REOLWR GWEITHDY

Yr Adran Gynhyrchu

Pwrpas yr Adran Gynhyrchu yw creu a rhedeg pob agwedd o gynyrchiadau a phrosiectau cysylltiedig Theatr Clwyd i'r safonau uchaf, mewn partneriaeth â chyfarwyddwyr, cynllunwyr ac arweinwyr prosiectau. Mae'r adran yn gyfrifol am sicrhau fod timau creadigol yn cyflawni eu gweledigaeth artistig o fewn amserlenni a chyllidebau penodol.

Mae Aelodau'r Adran Gynhyrchu yn gweithio'n agos ac yn cydweithio er mwyn cyflawni potensial ein cynyrchiadau ein hunain a sioeau sy'n ymweld â ni. Maent hefyd yn cefnogi'r holl ddigwyddiadau a gynhelir yn yr adeilad, gwaith yr Adran Ymgysylltu Creadigol a holl waith Theatr Clwyd sy'n teithio i'r gymuned a thu hwnt.

Pwrpas y Swydd

I weithio fel rhan o'r tîm gweithdy o fewn yr Adran Gynhyrchu, gydag arbenigedd mewn adeiladu setiau, cyflwyno gwasanaeth i gynyrchiadau o'r safonau uchaf posibl i Theatr Clwyd. Bydd ef/hi yn gweithio yn ardal y Gweithdy yn bennaf, a hefyd gyda chydweithwyr mewn ardaloedd eraill yn yr Adran Gynhyrchu yn achlysurol.

Cyfrifoldebau Allweddol

Cyffredinol

- Goruchwyllo Cynorthwyr y Gweithdy, staff achlysurol a staff llawrydd a chydlynw'r gweithdy, gan roi gwybod i Reolwr y Gweithdy am gynnydd y gwaith.
- Ar y cyd â Rheolwr y Gweithdy, cynllunio a rheoli llif gwaith yr adran ac arwain y tîm yn ystod gwaith adeiladu, gosod llwyfannau, symud a thynnu setiau yn ôl y gofyn, gan sicrhau amgylchedd gwaith diogel a chydymffurfio â'r holl ddeddfwriaethau perthnasol sy'n gysylltiedig â gweithle diwydiannol (gan gynnwys PUWER, COSHH, LOLER).
- Dirprwyo a rheoli'r adran yn absenoldeb Rheolwr y Gweithdy.
- Ar y cyd â Rheolwr y Gweithdy, bod yn gyfrifol am amgylchedd gwaith glân, taclus a threfnus a chymryd cyfrifoldeb arbennig dros gymhennu yn y gweithdy.
- Archebu deunyddiau a gwasanaethau yn absenoldeb Rheolwr y Gweithdy, i gadw mewn cysylltiad â Chyfarwyddwyr y Cynhyrchiad ar gyllidebau'r cynhyrchiad a'r adran.
- Dan reolaeth Rheolwr y Gweithdy, bod yn gyfrifol am adeiladu setiau neu unrhyw eitem ar gyfer cynyrchiadau yn unol â'r gofynion, i'r safonau uchaf posibl ac o fewn yr amser a'r gyllideb ddynodedig.
- Ochr yn ochr â Rheolwr y Gweithdy, darparu'r holl wybodaeth ymarferol angenrheidiol i'r dylunwyr.
- Cynorthwyo yn ystod wythnosau gosod a chynhyrchu er mwyn sicrhau eu bod yn rhedeg yn esmwyth.

- Ymgymryd â gwaith ymarferol o safbwynt unrhyw 'get-in', gosod, dymchwel, 'get-out', gan gynnwys gosod, rigio, addasu a defnyddio golygfeydd, propiau, rigio a chodi offer, goleuadau, effeithiau arbennig ac offer sain.
- Goruchwyllo staff dros dro yn ôl yr angen.
- Gweithio gyda Rheolwr y Gweithdy i sicrhau bod Cynorthwyr y Gweithdy, staff achlysurol a staff llawrydd yn cael eu hyfforddi a'u monitro.
- Dehongli dyluniadau a pharatoi cynlluniau a chreu dyluniadau, gan ddefnyddio CAD a rhaglenni eraill.
- Orlhain ac archebu stoc ac eitemau treuliadwy. Rhoi gwybod i Reolwr y Gweithdy os bydd angen llogi neu brynu unrhyw offer arbenigol.
- Gweithio o fewn cyllidebau penodol.
- Pan fydd angen, darparu cymorth technegol i ddefnyddwyr allanol.
- Cysylltu â'r Artist Golygfeydd a'r Gwneuthurwr Propiau i sicrhau bod yr adran yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon trwy gydol y broses adeiladu, sy'n cynnwys gwaith adeiladu a golygfaol.
- Mynychu cyfarfodydd yn ôl y gofyn a chynrychioli'r adran yn absenoldeb Rheolwr y Gweithdy.

Iechyd a Diogelwch

- Sicrhau bod yr holl ofynion Iechyd a Diogelwch yn cael eu cyflawni bob amser wrth weithio.
- Mynychu hyfforddiant fel bo'r angen a chynnal ymwybyddiaeth o reoliadau Iechyd a Diogelwch penodol i'r gofodau, y peiriannau a'r offer a ddefnyddir.
- Sicrhau fod yr holl offer arbenigol yn cael ei gau i lawr yn gywir ar ddiwedd pob diwrnod gwaith.
- Sicrhau fod pob perygl posibl yn cael ei ddiogelu cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.
- Cynhyrchu asesiadau risg a datganiadau dull fel bo'r angen.

Arall

- Sicrhau fod yr holl offer yn cael ei storio'n ddiogel ac yn hygyrch i ddefnyddwyr awdurdodedig.
- Ochr yn ochr â Rheolwr y Gweithdy, sicrhau bod rhestr eiddo o'r holl offer a deunyddiau yn cael ei chadw a'i defnyddio.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill y gallai Rheolwr y Gweithdy, y Rheolwr Cynhyrchu neu'r Cyfarwyddwr Cynhyrchu ofyn i chi eu cyflawni, o fewn rheswm.

Manyleb yr Unigolyn

Hanfodol

- Profiad ymarferol perthnasol o weithio ym maes adeiladu, gwaith coed neu saernïo metel, yn ddelfrydol mewn amgylchedd theatr.
- Profiad profedig o oruchwyllo, arwain ac ysgogi timau.
- Profiad cryf a phroffedig ym maes adeiladu a gwaith coed.
- Profiad cryf a phroffedig o weldio a saernïo metel.
- Gwybodaeth ymarferol am ddulliau rigio a defnyddio gêr codi yn ddiogel.
- Profiad o osod a rigio golygfeydd a systemau decin llwyfan.
- Profiad o greu a dehongli cynlluniau a lluniadau adeiladu.

- Arddangos gallu i baratoi cynlluniau a dyluniadau gwaith, gyda dealltwriaeth ymarferol o CAD a rhaglenni eraill.
- Sgiliau rhyngbersonol gwyb, y gallu i gyfathrebu'n glir ac yn gyson gyda holl ddefnyddwyr y theatr a gofodau, yn arbennig defnyddwyr annhechnegol.
- Ymagwedd drefnus, gyda llwyddiant blaenorol mewn cyrraedd dyddiadau cau a rheoli blaenoriaethau gwrthdrawiadol.
- Gallu defnyddio a chynnal a chadw ystod eang o offer a pheiriannau yn ddiogel ac yn hyderus yn y gweithdy.
- Gallu defnyddio amrywiaeth eang o offer pŵer symudol ac offer llaw yn ddiogel ac yn hyderus.
- Profiad o weithredu gofynion lechyd a Diogelwch ac asesiadau risg.
- Hyder i weithio'n annibynnol, ond hefyd parodrwydd i gydweithio ar draws nifer o adrannau.
- Gallu gweithio oriau hyblyg ac oriau anghymdeithasol, gan gynnwys gyda'r nos a rhai penwythnosau.
- Trwydded yrru lawn a glân.

Dymunol

- Profiad a gwybodaeth am gynhyrchu theatr prif ffrwd yn y DU.
- Profiad o raglennu, gweithredu a chynnal a chadw plaen cafnu CNC.
- Tystysgrif wagen fforch godi gyfredol
- Hyfforddiant codi a chario, defnyddio ysgol yn ddiogel a gweithio ar uchder.
- Tystysgrif cymorth cyntaf gyfredol.
- Yn gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg.